# Mott MacDonald - Hysbysiad preifatrwydd recriwtio

Os ydych yn gwneud cais am swydd, neu'n cael eich cyflogi i weithio gydag un o'r endidau sy'n rhan o Mott MacDonald, bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn eich helpu i ddeall pa wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu, pam mae ei hangen arnom, sut rydym yn ei defnyddio, gyda phwy rydym yn ei rhannu, a'r hawliau sydd gennych drosti.

Mewn rhai lleoliadau, efallai y bydd gwahaniaethau yn y ffordd rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol oherwydd gofynion cyfreithiol lleol neu'r ffordd mae Mott MacDonald yn gweithredu. Os felly, byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn mewn hysbysiad preifatrwydd atodol.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cyd-fynd â'n polisïau Grŵp ac Ein Cod. Rydym wedi penodi Pennaeth Grŵp ar breifatrwydd a diogelu data, James Alexander, i fonitro ein cydymffurfiaeth â chyfreithiau preifatrwydd a diogelu data.

Cynnwys :


01. Gwybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu
02. Sut rydym yn casglu'ch gwybodaeth bersonol
03. Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol
04. Penderfyniadau Awtomataidd
05. Sut rydym yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol
06. Sut rydym yn diogelu eich gwybodaeth bersonol
07. Am ba mor hir rydym yn cadw eich gwybodaeth bersonol
08. Eich dewisiadau a'ch hawliau preifatrwydd
09. Cysylltu â ni
10. Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn

## Gwybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu

Cynnwys

Yn ystod y broses recriwtio (ac ar ôl i'r broses honno ddod i ben), efallai y bydd angen i ni gasglu, storio, cael mynediad at, dadansoddi, rhannu neu ddefnyddio mewn rhyw ffordd arall y mathau canlynol o wybodaeth bersonol:

**Gwybodaeth adnabod bersonol:** enw llawn, teitl, dyddiad geni, cenedligrwydd, statws mewnfudo, statws milwrol/cyn-filwr, dynodwyr a rhoddir gan y Llywodraeth (pan fo angen a phan mae'r gyfraith naill ai yn ei ganiatáu neu'n ei wneud yn ofynnol) gan gynnwys manylion trwydded yrru a phasbort.

**Manylion cyswllt:** cyfeiriadau e-bost gwaith/personol, rhifau ffôn, cyfeiriadau post.

**Gwybodaeth am ddatblygu gyrfa a busnes:** teitl swydd, aelodaeth gydag unrhyw gyrff neu sefydliadau proffesiynol, CV, ardystiadau proffesiynol, tystysgrifau addysgol, statws cyflogaeth, hanes cyflogaeth, arfarniadau asesu a/neu brofion, nodiadau cyfweliad, a manylion cais.

**Gwybodaeth am gydnabyddiaeth a'r gyflogres:** gwybodaeth am gyfrif banc (ar gyfer taliad), cyflog a ddymunir, cyflog presennol, a chydnabyddiaeth a buddion.

**Gwybodaeth tracio ar-lein:** rhifau adnabod, lleoliad, cyfeiriad protocol rhyngrwyd (IP), ymddygiad pori, dynodwr dyfais unigryw, y wefan neu'r llwyfan cyfryngau cymdeithasol lle gwnaethoch gais ohono (er enghraifft, gwnaethoch gais drwy Indeed neu LinkedIn), a'r iaith a ddefnyddiwyd.

**Gwybodaeth mewngofnodi i gyfrifon:** enw defnyddiwr, a gwybodaeth arall a ddefnyddir i gael mynediad at a/neu ddiogelu systemau ac adnoddau gan gynnwys ein gwefan gyrfaoedd. I gael gwybod mwy am yr wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan gyrfaoedd neu'n defnyddio ein hadnoddau, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd gwefan a'n hysbysiad preifatrwydd technolegau tracio ar-lein.

**Data ymwelwyr swyddfa a chamerâu gwyliadwriaeth:** delweddau camera diogelwch sy'n ymwneud â mynediad i swyddfeydd a pharthau cyfyngedig. I gael gwybod mwy am yr wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu pan fyddwch yn ymweld ag un o'n swyddfeydd yn ystod cyfweliad wyneb yn wyneb, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd ymwelwyr a gwyliadwriaeth fideo.

Gwybodaeth iechyd: manylion o addasiadau rhesymol a gofynion hygyrchedd (gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â'ch symudedd, eich golwg neu'ch clyw) pan fo'u hangen i hwyluso eich cais a/neu gyfweliad gyda Mott MacDonald. Mae gwybodaeth iechyd yn arbennig o sensitif, felly dim ond os oes cyfiawnhad cyfreithiol clir dros wneud hynny y byddwn yn ei phrosesu.

**Gwybodaeth sgrinio cefndirol a fetio:** geirdaon cyflogaeth, gwiriadau addysg, a (pan fo angen a lle caniateir gan y gyfraith) gwybodaeth am euogfarnau troseddol a/neu droseddau honedig, canlyniad gwirio trwyddedau gyrru a chywirdeb ariannol, a chanlyniad fetio diogelwch cenedlaethol. Mae gwybodaeth am euogfarnau troseddol a/neu droseddau honedig yn arbennig o sensitif, felly dim ond os oes cyfiawnhad cyfreithiol clir dros wneud hynny y byddwn yn ei phrosesu.

**Gwybodaeth am gynhwysiant:** (pan fo angen a phan mae'r gyfraith naill ai yn ei ganiatáu neu'n ei wneud yn ofynnol yn yr awdurdodaeth lle rydych yn byw) tarddiad hiliol/ethnig, credoau crefyddol neu athronyddol, statws anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw biolegol, a hunaniaeth rhywedd. Mae'r wybodaeth hon yn ein galluogi i fonitro cynhwysiant y gweithlu a chydraddoldeb cyfleoedd a chanlyniadau. Fe'i defnyddir i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol ac (os oes angen, ar ffurf gyfunol a dadbersonol) at ddibenion adrodd. Mae'r math hwn o wybodaeth yn arbennig o sensitif, felly dim ond os oes cyfiawnhad cyfreithiol clir dros wneud hynny y byddwn yn ei phrosesu.

**Gwybodaeth arall:**

- Delwedd ohonoch (lluniau a/neu fideos)
- Y lleoliad gwaith sydd orau gennych a gwybodaeth gysylltiedig am adleoli
- Gwybodaeth a roddwch am yr ieithoedd y gallwch gyfathrebu ynddynt
- Perthynas â'r aelod o'n gweithlu a'ch cyfeiriodd atom (er enghraifft, rydych chi ac aelod o'n gweithlu yn gyn-gydweithwyr)
- Adborth, barn a gwybodaeth a ddarperir mewn e-byst
- Unrhyw ddiddordeb rydych chi'n eu darparu'n uniongyrchol i ni (er enghraifft, efallai y byddwch yn nodi bod gennych chi ddiddordeb mewn cael gohebiaeth ddigidol gennym ni sy'n ymwneud â chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol)
- Unrhyw wybodaeth y gallem ei chael yn anuniongyrchol drwy'r adegau yr ydych wedi rhyngweithio â ni (er enghraifft, gwybodaeth y gallem ei chasglu gan ddefnyddio technolegau tracio ar-lein i ddeall sut rydych yn rhyngweithio â'n gwefan gyrfaoedd)
- Unrhyw wybodaeth arall (gan gynnwys gwybodaeth bersonol sensitif megis cyflwr meddygol) rydych yn ei rhoi i ni'n wirfoddol, hyd yn oed os na ofynnwyd amdani yn ystod y broses recriwtio. Rydym yn argymell eich bod yn ystyried yn ofalus yr angen i rannu'r wybodaeth hon ac yn ei chyfyngu i'r hyn sy'n berthnasol ac yn angenrheidiol

Os byddwch yn penderfynu peidio â darparu eich gwybodaeth bersonol fel rhan o'r broses recriwtio, gallai effeithio ar eich gallu i gymryd rhan ac arwain at orfod gwrthod eich cais.

## Sut rydym yn casglu'ch gwybodaeth bersonol

Cynnwys

Rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan gyrfaoedd, yn ymgysylltu â ni'n uniongyrchol (er enghraifft, drwy ryngweithio â chynrychiolwyr Mott MacDonald yn ystod y broses gyfweld), neu drwy sianeli recriwtio eraill. Mae rhai achlysuron hefyd pan fydd eich gwybodaeth bersonol yn dod i ni gan drydydd partïon.

**Digwyddiadau a gweithgareddau wyneb yn wyneb mewn ffair swyddi:** rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn rhyngweithio â chynrychiolydd Mott MacDonald mewn digwyddiad ffair swyddi (er enghraifft, os byddwch yn rhannu eich gwybodaeth gyswllt â ni).

**Gweithgareddau marchnata gyrfaoedd (gwefan, cyfathrebu digidol a chyfryngau cymdeithasol):** rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan gyrfaoedd, yn mewngofnodi neu'n cofrestru ar gyfer un o'n cyfleoedd gwaith, neu pan fyddwch yn cytuno i dderbyn cyfathrebiadau marchnata digidol gennym. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol rydych yn eu defnyddio, megis LinkedIn, i anfon gwybodaeth atoch am gyfleoedd gwaith yr ydym o'r farn a allai fod o ddiddordeb i chi. Wrth anfon y cyfathrebiadau hyn, rydym yn parchu'r holl ddewisiadau rydych wedi'u gosod ar y llwyfannau hyn. Darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd marchnata a digwyddiadau i gael rhagor o wybodaeth.

**Porth recriwtio ar-lein:** rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn cyflwyno eich cais gan ddefnyddio ein gwefan gyrfaoedd a'n systemau recriwtio.

**Cyfweliadau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy fideo-gynadledda:** rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn cymryd rhan mewn unrhyw gyfweliadau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy gynhadledd fideo gyda chynrychiolwyr Mott MacDonald yn ystod y broses recriwtio.

**Cyfathrebu digidol:** rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn cysylltu â ni neu'n anfon eich ymholiadau drwy ein sianeli recriwtio.

**Trydydd partïon:** efallai o bryd i'w gilydd y bydd trydydd partïon yn rhoi eich gwybodaeth bersonol i ni, er enghraifft, os ydym wedi ffurfio partneriaeth ag asiantaeth recriwtio i'n helpu i ddod o hyd i ymgeisydd sy'n addas am swydd; neu gan unigolion/sefydliadau sy'n darparu geirdaon addysgol neu eirdaon gyflogaeth. Byddwn bob amser yn cadarnhau gydag unrhyw drydydd parti eich bod wedi cytuno i rannu eich gwybodaeth bersonol gyda Mott MacDonald.

## Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Cynnwys

Mott MacDonald sy'n gyfrifol am benderfynu sut rydym yn casglu, yn cael mynediad at, yn dadansoddi neu fel arall yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch yn bennaf er mwyn eich gwneud yn ymwybodol o gyfleoedd gwaith newydd, i werthuso eich addasrwydd ar gyfer swyddi gwag presennol yr ydych wedi mynegi diddordeb ynddynt, i reoli ein perthynas â chi, ac er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny y byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch. Mewn rhai awdurdodaethau, gall y cyfiawnhad cyfreithiol y gallwn ddibynnu arno i brosesu eich gwybodaeth bersonol fod ychydig yn wahanol i'r rhai a amlinellir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Os felly, byddwn yn rhoi gwybod i chi am y gwahaniaethau mewn hysbysiad preifatrwydd atodol.

Mae'r dibenion y gallai fod angen i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol ar eu cyfer (a'r categorïau o wybodaeth bersonol dan sylw) yn cynnwys:

**Recriwtio talent newydd a chynnal gwiriadau cefndirol**

- Nodi, gwerthuso, dethol a chyflogi ymgeiswyr
- Asesu sgiliau, cymwysterau a diddordebau yn erbyn cyfleoedd gyrfa Mott MacDonald
- Trefnu a chynnal cyfweliadau ac asesiadau
- Nodi a mynd i'r afael â gofynion hygyrchedd ac addasiadau rhesymol
- Rheoli treuliau ac ad-daliadau
- Cynnal asesiadau a gwiriadau cefndirol
- Gwirio eich bod yn cael gweithio mewn gwlad neu awdurdodaeth benodol
- Cysylltu ag unigolion a sefydliadau i gael gafael ar, neu i drafod, geirdaon addysg/cyflogaeth a ddefnyddiwyd i werthuso eich ymddygiad neu berfformiad yn y gorffennol (neu fel sy'n angenrheidiol fel arall yng nghyd-destun gweithgareddau recriwtio)
- Rhoi gwybod i'r gweithiwr Mott MacDonald a wnaeth eich atgyfeirio chi (lle bo hynny'n berthnasol) am statws y cylch recriwtio
- Dechrau'r broses gynefino (os bydd eich cais yn llwyddiannus)

Mae categorïau o wybodaeth bersonol a ddefnyddir at y diben hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth adnabod bersonol
- Manylion cyswllt
- Gwybodaeth am ddatblygu gyrfa a busnes
- Gwybodaeth am gydnabyddiaeth a buddion
- Gwybodaeth iechyd
- Gwybodaeth sgrinio cefndirol a fetio
- Eich adborth, eich barn, eich diddordebau, eich dewisiadau a gwybodaeth arall

**Rheoli ein perthynas â chi**

- Rhoi gwybod i chi am swyddi gwag sydd ar gael
- Cyfathrebu â chi am swyddi gwag yn y dyfodol
- Darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â chais a bodloni unrhyw geisiadau a wneir gennych
- Cynnig cyfleoedd cyflogaeth addas gyda Mott MacDonald
- Ymateb i ymholiadau a gawn gennych

Mae categorïau o wybodaeth bersonol a ddefnyddir at y diben hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth adnabod bersonol
- Manylion cyswllt
- Gwybodaeth am ddatblygu gyrfa a busnes
- Eich adborth, eich barn, eich diddordebau, eich dewisiadau a gwybodaeth arall

**Gwella ein prosesau recriwtio a chyflogi**

- Monitro tueddiadau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r bwlch cyflog ethnigrwydd i sicrhau bod ein prosesau'n deg (lle mae'r gyfraith yn ei ganiatáu neu'n ei wneud yn ofynnol)
- Monitro data cynhwysiant a thueddiadau cyflogaeth i sicrhau bod ein prosesau'n deg (lle mae'r gyfraith yn ei ganiatáu neu'n ei wneud yn ofynnol)
- Adolygu a rheoli unrhyw adborth a gawn gennych

Mae categorïau o wybodaeth bersonol a ddefnyddir at y diben hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth adnabod bersonol
- Gwybodaeth am gynhwysiant
- Eich adborth, eich barn, eich diddordebau a'ch dewisiadau

**Gwella effeithiolrwydd ein strategaethau recriwtio**

- Deall sut y daethoch i wneud cais am swydd gyda Mott MacDonald (er enghraifft, gwnaethoch gais drwy Indeed neu daethoch yn ymwybodol o gyfle am swydd drwy LinkedIn)
- Adolygu adroddiadau ystadegol (a gawn gan drydydd partïon) i ddeall faint o gynigion, penodiadau a cheisiadau y mae'r trydydd partïon hyn wedi dylanwadu arnynt/eu cynhyrchu i ni

Mae categorïau o wybodaeth bersonol a ddefnyddir at y diben hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth adnabod bersonol (enw)
- Manylion cyswllt (cyfeiriadau e-bost)
- Eich adborth, eich barn, eich diddordebau a'ch dewisiadau

**Gwella cynnwys ein gwefan gyrfaoedd a'n deunyddiau marchnata**

- Gwybodaeth tracio ar-lein (eich cyfeiriad IP, lleoliad daearyddol, a chyfeiriad e-bost)
- Diddordebau a dewisiadau (os ydych wedi'u darparu)

**Cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol**

- Datgelu gwybodaeth bersonol i asiantaethau'r llywodraeth, awdurdodau rheoleiddio neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith (mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â gwyslythyrau a gorchmynion llys)
- Rhwymedigaethau cadw cofnodion ac adrodd
- Dilyn ein hawliau cyfreithiol a'n rhwymedïau
- Sefydlu, arfer neu amddiffyn safbwynt cyfreithiol Mott MacDonald
- Rheoli cwynion a hawliadau cyfreithiol
- Cynnal gwiriadau cofnodion troseddol, gwiriadau trwydded yrru, a gwiriadau hanes (bydd hyn yn dibynnu ar y gyfraith leol berthnasol, gofynion y cleient a gofynion y rôl)
- Cynnal asesiadau i bennu eich statws cyflogaeth at ddibenion treth
- Gwirio eich bod yn cael gweithio mewn gwlad neu awdurdodaeth benodol
- Monitro ac adrodd ar fylchau cyflog o ran rhywedd ac ethnigrwydd (lle bo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith)

- Monitro ac adrodd ar gynhwysiant a chydraddoldeb (lle bo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith)

Mae categorïau o wybodaeth bersonol a ddefnyddir at y diben hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth adnabod bersonol
- Manylion cyswllt
- Gwybodaeth am ddatblygu gyrfa a busnes
- Gwybodaeth am gydnabyddiaeth a chyflogres
- Gwybodaeth iechyd
- Gwybodaeth sgrinio cefndirol a fetio
- Gwybodaeth am gynhwysiant

Wrth ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at y dibenion uchod, byddwn fel arfer yn dibynnu ar eich cydsyniad neu rwymedigaeth gyfreithiol. Mewn rhai awdurdodaethau, megis y DU ac aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, mae'n bosibl y byddwn hefyd yn prosesu'r wybodaeth hon ar sail ein buddiannau cyfreithlon (os felly, byddwn yn cydbwyso eich hawliau a'ch rhyddid yn erbyn ein buddiannau ein hunain, neu fuddiannau unrhyw drydydd parti, i sicrhau nad yw eich hawliau'n cael eu amharu arnynt).

## Penderfyniadau Awtomataidd

Cynnwys

Penderfyniadau awtomataidd yw'r broses o wneud penderfyniadau gwrthrychol drwy ddulliau awtomataidd, yn seiliedig ar feini prawf a ddiffiniwyd ymlaen llaw, heb unrhyw ymyrraeth ddynol. Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny y byddwn yn gwneud penderfyniadau awtomataidd, er enghraifft: pan fydd yn angenrheidiol ar gyfer ymrwymo i gontract rhyngoch chi a Mott MacDonald; neu pan fyddwn wedi cael eich cydsyniad.

Pan fyddwn yn disgwyl nifer sylweddol o ymgeiswyr am swydd, efallai y byddwn yn ei defnyddio i helpu i asesu cymhwysedd ymgeiswyr. Efallai y bydd eich cais yn cael ei wrthod yn awtomatig os nad yw eich cais yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y disgrifiad swydd, neu os nad ydych yn pasio asesiad sy'n ofynnol ar gyfer y rôl. Mae'n bosibl y bydd rhai rolau hefyd yn gofyn am ragofynion penodol, er enghraifft yr hawl gyfreithiol i weithio yn y wlad lle mae'r swydd wedi'i lleoli. Gall ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r gofynion hyn gael eu gwrthod yn awtomatig.

Os byddwch yn gwneud cais am le ar un o'n rhaglenni recriwtio graddedigion, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio adnoddau asesu ar-lein trydydd parti. Mae'r asesiadau hyn yn rhoi gwybod i ni a ydych yn debygol o fwynhau gweithio gyda ni ac a oes gennych chi'r sgiliau cyffredinol i fod yn llwyddiannus yn Mott MacDonald. Os nad ydych yn bodloni'r sgôr ofynnol ar gyfer asesiad, ni fyddwch yn gallu symud ymlaen ymhellach yn y broses. Gofynnir cyn i chi ddechrau'r asesiad am gydsyniad penodol i ddefnyddio penderfyniadau awtomataidd (gyda'r canlyniad yn cael ei bennu gan sgôr eich asesiad).

Os byddwch yn gwrthwynebu ein defnydd o benderfyniadau awtomataidd neu'n tynnu eich cydsyniad yn ôl, byddwn yn peidio â defnyddio'r technegau hynny i brosesu eich gwybodaeth bersonol. Os byddwch yn gofyn i ni adolygu penderfyniad awtomataidd drwy gyflwyno cais drwy ein ffurflen cais am hawliau unigolyn neu drwy gysylltu â privacy@mottmac.com, byddwn yn adolygu'r penderfyniad awtomataidd ac yn cadarnhau a oedd yn gywir ai peidio.

Sylwch fod Mott MacDonald yn gyflogwr cynhwysol. Rydym yn sicrhau bod ein penderfyniadau recriwtio yn wrthrychol, yn rhydd o ragfarn, ac yn seiliedig ar sgiliau a photensial unigol. Nid yw ein penderfyniadau awtomataidd byth yn defnyddio gwybodaeth bersonol sensitif y gellid ei defnyddio i wahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr oherwydd rhyw biolegol, hunaniaeth rhywedd, ethnigrwydd, hil neu grefydd.

## Sut rydym yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol

Cynnwys

Os yw'n angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny, efallai y bydd yn rhaid i ni rannu eich gwybodaeth bersonol â'r canlynol:

**Gwahanol endidau Mott MacDonald** sy'n ymwneud â rheoli ein perthynas â chi a rhedeg ein busnes.

**Ein darparwyr gwasanaeth a'n cyflenwyr** sy'n ein helpu i gyfathrebu â chi a chyflawni ein hymgyrchoedd recriwtio, cynnal sgrinio cefndirol a fetio, cynnal asesiadau o dalent a phrofion addasrwydd, prosesu ceisiadau am fisa a thrwyddedau gwaith, cefnogi ein seilwaith a'n systemau technoleg neu reoli mynediad i'n safleoedd a'n cyfleusterau gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys, Docusign (teclyn gweithredu cytundeb electronig), Fortytwo Labs (teclyn trefnu cyfweliadau), Korn Ferry (teclyn asesu talent) a Sterling (sgrinio a fetio'r gweithlu).

**Partneriaid busnes dibynadwy** sy'n ein helpu i ddod o hyd i ymgeiswyr addas am swyddi, yn ein helpu i asesu a gwella effeithiolrwydd ein strategaethau recriwtio, ac yn rhoi cipolwg beirniadol ar gyfraddau llwyddiant recriwtio, megis darparu adroddiadau ystadegol dienw i ni ar faint o gynigion, penodiadau neu geisiadau y mae'r partneriaid busnes trydydd parti hyn wedi cynhyrchu/dylanwadu arnynt ar ein cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys, Handshake (marchnad swyddi yn UDA), Indeed (bwrdd swyddi), a LinkedIn (llwyfan cyfryngau cymdeithasol).

**Ein cynghorwyr cyfreithiol neu broffesiynol eraill allanol** am gyngor ar faterion yn ymwneud â recriwtio a chyflogaeth, asesu opsiynau fisa a thrwydded waith, i bennu rhwymedigaethau treth, a (lle bo angen) i ymchwilio, mynd ar drywydd neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol/yswiriant (neu hawliadau eraill o natur debyg).

**Ein cleientiaid a'n partneriaid cyflenwi** pan fydd rôl rydym yn recriwtio ar ei chyfer yn dibynnu ar gymeradwyaeth y cleient a/neu bartner mewn menter ar y cyd.

**Trosglwyddeion busnes** os bydd ailstrwythuro corfforaethol. Er enghraifft, os byddwn yn ymrwymo, neu'n bwriadu ymrwymo, i drafodiad sy'n newid strwythur ein busnes, megis uno, caffael, gwerthu, menter ar y cyd, cyfnerthu, neu waredu'r cyfan neu unrhyw ran o'n busnes neu ein hasedau mewn ffordd arall.

**Awdurdodau rheoleiddio neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith** lle bo angen i hwyluso'r gwaith o atal, canfod ac ymchwilio i weithgarwch troseddol a amheuir, ac os oes angen i ni gydymffurfio â chais swyddogol am wybodaeth (mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â gwysion a gorchmynion llys).

Pan fydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol â'r trydydd partïon hyn, rydym yn defnyddio cyfuniad o fesurau cytundebol, ffisegol a thechnegol i gadw'r wybodaeth hon ddiogel.

Er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol sy'n cael ei throsglwyddo'n rhyngwladol, rydym yn sicrhau bod mesurau diogelu digonol a chymesur ar waith a bod eich hawliau preifatrwydd a diogelu data'n cael eu diogelu. Y rheswm am hyn yw y gallai fod gennych lai o hawliau dan gyfreithiau lleol mewn rhai gwledydd nag sydd gennych yn eich gwlad breswyl.

Bydd y mesurau diogelu hynny fel arfer yn cynnwys amgryptio data, caniatâd mynediad sy'n seiliedig ar rôl, a chytundebau cyfreithiol sy'n hwyluso trosglwyddo gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon ar draws ffiniau. Cyfeiriwch at ein polisïau Grŵp i gael rhagor o wybodaeth.

Ni fyddwn byth yn gwerthu eich gwybodaeth bersonol i drydydd parti at unrhyw ddiben.

## Sut rydym yn diogelu eich gwybodaeth bersonol

Cynnwys

Rydym yn gweithio'n galed i gynnal ac i wella mesurau diogelwch sy'n atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli'n ddamweiniol, ei defnyddio neu rhag i rywun cael mynediad ati heb awdurdod, ei newid neu ei datgelu. Rydym yn cyfyngu mynediad at wybodaeth bersonol i unigolion a sefydliadau sydd â hawl cyfreithiol i gael mynediad (er enghraifft, awdurdodau rheoleiddio neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith), neu sydd ag angen busnes dilys i wybod (er enghraifft, arbenigwyr recriwtio, rheolwyr sy'n penodi a darparwyr gwasanaethau). Bydd ein darparwyr a'n cyflenwyr gwasanaeth yn prosesu gwybodaeth bersonol yn unol â'n cyfarwyddiadau ni yn unig, ac rydym yn sicrhau bod pob trydydd parti yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd gyfreithiol.

Mae'n ofynnol i bawb sy'n gweithio i Mott MacDonald, y gallai fod gofyn iddynt gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol wrth gyflawni eu dyletswyddau, gwblhau hyfforddiant preifatrwydd a diogelu data, a hyfforddiant diogelwch gwybodaeth, yn flynyddol.

Gweler hefyd ein polisïau Grŵp i gael rhagor o wybodaeth.

## Am ba mor hir rydym yn cadw eich gwybodaeth bersonol

Cynnwys

Dim ond am gyn hired ag sy'n rhesymol angenrheidiol at y dibenion a nodir yn y polisi preifatrwydd hwn y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol. Wrth bennu'r cyfnodau cadw hynny, rydym yn ystyried y canlynol:

- A fydd ei hangen arnom er mwyn ymateb i'ch ymholiadau neu i reoli perthynas barhaus â chi? Er enghraifft, rhoi gwybod i chi am gyfleoedd gwaith newydd yn y dyfodol.
- A oes ei angen arnom i fonitro ac adrodd ar dueddiadau cynhwysiant a chyflogaeth, fel y gallwn ddarparu tystiolaeth bod ein prosesau recriwtio'n deg?
- Am ba hyd sydd angen i ni gadw'r wybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol neu reoleiddiol? Er enghraifft: tystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer archwiliad treth, archwiliad mewnfudo neu archwiliad ariannol allanol; i gydymffurfio â darpariaeth benodol mewn cyfraith benodol; neu i ymateb i hawliad cyfreithiol neu ymchwiliad rheoleiddiol.
- A oes angen i ni ei chadw at ddiben cyfreithlon arall, er enghraifft, i atal niwed i unigolion neu i'n busnes; neu i ddiogelu ein hawliau cyfreithiol, ein heiddo neu ein hasedau?

Mewn rhai achosion, ac am resymau penodol, byddwn yn cadw gwybodaeth am gyfnod estynedig. Pan fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei dileu neu ei dinistrio, byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei gwaredu'n ddiogel ac yn barhaol yn unol ag unrhyw ofynion cyfreithiol lleol.

## Eich dewisiadau a'ch hawliau preifatrwydd

Cynnwys

Rydym yn parchu eich hawliau dros eich gwybodaeth bersonol, sydd wedi'u nodi isod:

- **Yr hawl i gael mynediad** at eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol ac i wirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
- **Yr hawl i gywiro** unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddiwygio neu ddiweddaru unrhyw wybodaeth bersonol sy'n anghyflawn neu'n anghywir.
- **Yr hawl i ofyn am ddileu** gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu gael gwared â gwybodaeth bersonol lle nad oes rheswm dilys dros barhau i'w phrosesu.
- **Yr hawl i wrthwynebu** i'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol os ydych yn credu nad oes gennym reswm dilys dros ei phrosesu a'ch bod am i ni roi'r gorau i'w phrosesu.
- **Yr hawl i gyfyngu** ar y defnydd pellach o wybodaeth bersonol amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni gyfyngu ar, neu atal, y defnydd o'ch gwybodaeth bersonol (er enghraifft, os ydych am i ni gadarnhau ei chywirdeb neu'r rheswm pam ein bod yn ei phrosesu).
- **Yr hawl i drosglwyddo** gwybodaeth bersonol amdanoch i barti arall. Gallwch ofyn i ni anfon/portio eich gwybodaeth bersonol i sefydliad arall.
- **Yr hawl i dynnu cydsyniad yn ôl** o ran ein prosesu o'ch gwybodaeth bersonol os mai eich cydsyniad chi yw sail ein prosesu. Mae'n bosibl na fydd yr hawl hon yn berthnasol os oes cyfiawnhad cyfreithiol arall dros barhau i brosesu neu os oes angen i ni gadw gwybodaeth bersonol benodol lle bo hynny'n ofynnol neu'n cael ei chaniatáu o dan y gyfraith berthnasol. Bydd canlyniadau tynnu eich cydsyniad yn ôl yn cael eu cyfleu i chi pan fyddwch yn rhoi gwybod i ni yr hoffech dynnu eich cydsyniad yn ôl.

Gallwch chi neu enwebai awdurdodedig arfer yr hawliau hyn ar unrhyw adeg drwy gyflwyno cais drwy ein ffurflen cais am hawliau unigolyn, drwy gysylltu â privacy@mottmac.com. Os ydych yn byw yng Nghaliffornia, gallwch hefyd gyflwyno cais drwy gysylltu â ni yn 1-800-832-3272. Mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd angen i ni gasglu gwybodaeth bersonol gennych, megis eich enw a'ch manylion cyswllt, i gadarnhau pwy ydych chi cyn ymateb i'ch cais.

Os ydych wedi gofyn i rywun arall arfer eich hawliau ar eich rhan ac nad yw'r enwebai hwnnw'n darparu tystiolaeth ysgrifenedig o'i awdurdod i wneud hynny (er enghraifft, atwrneiaeth neu lythyr awdurdodi wedi'i lofnodi gennych), ni fyddwn yn gallu prosesu na gweithredu ei gais.

Os byddwch yn dewis arfer unrhyw rai o'ch hawliau a nodir uchod, rydym wedi ymrwymo i'ch trin yn deg a sicrhau triniaeth anwahaniaethol. Byddwn yn ymateb i chi o fewn unrhyw ddyddiad cau statudol perthnasol (er enghraifft, yn y DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd byddwn yn ymateb i chi cyn pen mis ar ôl y dyddiad y bydd eich cais yn dod i law; ac yng Nghaliffornia byddwn yn ymateb i chi cyn pen pedwar deg pum diwrnod ar ôl y dyddiad y bydd eich cais yn dod i law). Os oes rheswm cyfreithlon dros ymestyn y dyddiad cau hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl.

Sylwch hefyd y gallai hawliau a buddiannau pobl eraill neu rwymedigaeth gyfreithiol (er enghraifft, lle nad ydym yn gallu dileu eich holl wybodaeth bersonol oherwydd ein rhwymedigaethau rheoleiddiol) gyfyngu ar i ba raddau y gallwch arfer eich hawliau. Os felly, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bo modd.

## Cysylltu â ni

Cynnwys

Os oes gennych bryderon am y ffordd mae Mott MacDonald wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, neu os ydych chi eisiau arfer eich hawliau preifatrwydd, llenwch ein ffurflen cais am hawliau unigolyn neu cysyllltwch â privacy@mottmac.com. Os ydych wedi'ch lleoli yn Singapore, gallwch hefyd gysylltu â ni drwy ffonio 6293 1900.

Os ydych yn anhapus â'n hymateb ar ôl mynegi pryder neu gyflwyno cais am hawliau gwybodaeth, gallwch gofrestru cwyn yn uniongyrchol gyda'r rheoleiddiwr preifatrwydd a diogelu data yn y wlad, y wladwriaeth neu'r dalaith lle rydych chi wedi'ch lleoli. Os nad ydych yn siŵr pa awdurdod rheoleiddio sy'n gorfodi cydymffurfiad o ran preifatrwydd a diogelu data yn eich awdurdodaeth, cysylltwch â privacy@mottmac.com i ofyn am y manylion cyswllt perthnasol.

## Newidiadau i’r hysbysiad preifatrwydd hwn

Cynnwys

Cyhoeddwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ym mis Mawrth 2026 ac mae’n bosibl y bydd angen ei ddiweddaru oherwydd newidiadau i’n systemau a’n prosesau neu i’r gyfraith, felly rydym yn argymell eich bod yn adolygu’r hysbysiad hwn o bryd i’w gilydd. Os bydd newidiadau sylweddol yn effeithio ar eich hawliau preifatrwydd, byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi a chymryd unrhyw gamau eraill sy’n ofynnol gan y gyfraith berthnasol.

### Trigolion Califfornia

Os ydych yn un o drigolion Talaith Califfornia, darllenwch ein Hysbysiad preifatrwydd recriwtio atodol Califfornia i ddysgu mwy am sut rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol a’ch hawliau preifatrwydd fel un o drigolion Califfornia.